CYFRAITH NATUR WYLLT:

Y GYFARWYDDEB ADAR EWROPEAIDD

Wynebu'r her i adar a phobl



RSPB

a million voices for nature
miliwn o leisiau dros natur

Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) yn y DU

O'r 257 AGA, mae 94 (37%) yn cynnwys gwarchodfa RSPB yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn eu ffiniau. Mae hyn yn cyfateb i tua 112 gwarchodfa RSPB sy'n allweddol i reoli rhai o AGA y DU

Ardal Gwarchodaeth Arbennig Ddynodedig

Ardal Gwarchodaeth Arbennig gyda gwarchodfa RSPB

© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl.
Trwydded RSPB 100021787

Rhagair

Alistair Gammell
Cyfarwyddwr, Gweithrediadau Rhyngwladol yr RSPB

Cyhoeddwyd Cyfarwyddeb Adar yr Undeb Ewropeaidd ar adeg pan roedd y mudiad cadwraeth yn ei chael hi'n anodd ymladd ar dir gwastad ac roedd buddugoliaethau i fyd natur yn llawer rhy brin. Yn y 1970au, roedd yr RSPB lawer yn llai, ac roedd hi'n ymroddiad sylweddol i fynd ati i lobïo ym Mrwsel.

Roedd achub safleoedd arbennig yn amcan pwysig, gan fod bygythiadau i wlypdiroedd a chynefinoedd arfordirol ym mhob cwr o Ewrop; ond y prif bryder, bryd hynny, oedd lladd adar yn ardal Môr y Canoldir. Rwyf wedi gweld pwyslais y Gyfarwyddeb Adar yn newid yn ystod y 30 mlynedd diwethaf. Mae pwysau hela wedi gostwng, er ei fod yn dal yno. Mae bygythiadau i gynefinoedd a mannau arbennig y mae adar yn dibynnu arnynt, yn anffodus, wedi cynyddu.

Mae'r Gyfarwyddeb Adar wedi newid y ffordd y mae safleoedd yn cael eu hamddiffyn. Cyn y Gyfarwyddeb, yr unig ffordd sicr i amddiffyn safle oedd ei brynu. Roedd gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Dennis Howell, a lofnododd y Gyfarwyddeb ar ran y DU, brofiad personol o'r hyn y gallai'r gyfarwyddeb newydd ei gyflawni. Y flwyddyn flaenorol, roedd pwysigrwydd rhyngwladol aber yr afon Ribble yn Swydd Gaerhirfryn wedi cael ei gydnabod, eto i gyd dim ond gorchymyn prynu gorfodol gan y Cyngor Gwarchod Natur wnaeth achub y gwlypdir hwn, sydd ymhlith rhai pwysicaf y byd, rhag cael ei ddatblygu.

Ychydig a wyddwn y byddem ni, trwy gyd-lobïo ar y Gyfarwyddeb Adar ddrafft gyda chydweithwyr cadwraeth yn yr Almaen, yr Iseldiroedd, Ffrainc a'r Eidal, yn gosod y sylfeini ar gyfer yr hyn a ddatblygodd i fod yn BirdLife International. Heddiw, mae'r bartneriaeth fyd-eang hon o sefydliadau cadwraeth yn ymdrechu i warchod adar a'u cynefinoedd mewn dros 100 o wledydd a thiriogaethau.

O ganlyniad i fabwysiadu'r Gyfarwyddeb Adar roedd angen nodi'r safleoedd mwyaf arwyddocaol ar gyfer adar ym mhob cwr o'r UE. Mae'r disgrifiad o Ardaloedd Pwysig ar gyfer Adar ledled Ewrop yn un o brif lwyddiannau'r bartneriaeth BirdLife, ac fe'i fabwysiadwyd fel model ym mhedwar ban byd.

Un o'r cryfderau mawr a pharhaus yw'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n golygu bod Cyfarwyddeb a weithredwyd pan roedd y "Farchnad Gyffredin" yn cynnwys 10 o Aelod-Wladwriaethau, yn effeithiol ac yn berthnasol 30 o flynyddoedd yn ddiweddarach â'r UE wedi tyfu i 27. Mae'r Gyfarwyddeb Adar yn gryf ond eto i gyd yn hyblyg: mae ei fframwaith clir a chadarn o safbwynt gwyddoniaeth yn dibynnu ar yr egwyddor y dylid gwneud penderfyniadau mor agos at y dinesydd â phosibl. Ynghyd â 30 mlynedd o gyfraith achos, mae'r nodweddion hyn yn sicrhau bod y Gyfarwyddiaeth Adar yn parhau i fod yn ganolog yng nghadwraeth adar a mannau gwyllt Ewrop.

Mae'r rheiny ohonom sy'n hoff o natur am fod yn siŵr bod y Gyfarwyddeb Adar wedi gweithio. Mae'r RSPB a BirdLife International wedi gwneud yr ymchwil i ddangos ei bod yn cyflawni ei gwaith. Mae'r adar hynny yn Ewrop sy'n peri pryder o ran cadwraeth ac sydd wedi'u rhestru yn Atodiad 1 o'r Gyfarwyddeb wedi llwyddo'n well y tu mewn i'r UE na'r tu allan. O ran y safleoedd hynny sy'n Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ac sy'n rhan o rwydwaith Natura 2000 ym mhob rhan o'r UE, rydym yn gwybod y gall y Cyfarwyddebau Adar a Chynefinoedd fod yn effeithiol iawn o gael eu gweithredu'n effeithiol.

Mae'r dyfodol yn un lle mae'n rhaid gwarchod ein safleoedd gorau fel cam cyntaf hanfodol yn wyneb newid yn yr hinsawdd. Rhaid i Aelod-Wladwriaethau sicrhau bod safleoedd wedi'u dynodi a bod arian ar gael i sicrhau bod y safleoedd hyn yn cael eu rheoli'n briodol. Mae angen i Lywodraethau fuddsoddi mewn arferion rheoli sy'n cefnogi cymunedau a bywoliaeth pobl mewn ardaloedd gwarchodedig.

Rwyf yn credu'n gadarn mai nawr yw'r amser i fod yn hy. Bydd yr ychydig flynyddoedd nesaf yn diffinio ymateb y byd i ddwy her, sef newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. Mae'r Gyfarwyddeb Adar a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn gyfle blaenllaw i'r UE sicrhau nad ydym ni yn "gwarchod y gorau" yn unig, ond yn hytrach sicrhau bod safleoedd gwarchodedig wedi'u lleoli mewn tirlun sy'n cynnal ein treftadaeth anghredadwy o fywyd gwyllt a mannau gwyllt - amcan a ddylai fod yn arwydd o'n gwareiddiad ein hunain.



“ Prawf sylfaenol ar gymdeithas wâr yw ei bod yn gwarchod ac adfer ein hamgylchedd naturiol a’r bywyd gwyllt sy’n dibynnu arno. Bydd hanes yn collfarnu’r rhai a fethodd â meithrin systemau cynnal bywyd y blaned y mae pob un ohonom yn dibynnu arnynt yn y pen draw. ”

Dr André Farrar, Ymgyrchydd Ardaloedd Gwarchodedig ar gyfer yr RSPB

Niall Benvie (rspb-images.com)

Cyflwyniad

Mae’n 30 mlynedd ers i’r Gyfarwyddeb Adar ddod i rym. Pam y mae’r cyfnod hwn yn 2009 yn arwyddocaol? Cyfiawnhawyd y Gyfarwyddeb Adar fel ffordd o sicrhau na allai unrhyw aelod-wladwriaeth o’r Undeb Ewropeaidd ennill mantais economaidd tymor byr drwy fanteisio ar ei hamgylchedd. Roedd hefyd yn gyfnod allweddol yn y broses o gydwladoli cadwraeth natur. Mae adar yn symud; mae’n rhaid i unrhyw gamau cadwraeth fod yn effeithiol ar draws ffiniau cenedlaethol.

Mae’r llyfryn hwn yn cyflwyno portffolio o dystiolaeth gadarn sy’n dangos bod y Gyfarwyddeb Adar wedi llywio penderfyniadau yn y DU sy’n cael effaith aruthrol ar fyd natur. Roedd y Gyfarwyddeb Adar yn fodd o warchod ac adfer lleoedd sy’n cael eu defnyddio gan adar: y mannau bwydo, safleoedd nythu a mannau gorffwys sy’n rhan o’u bywydau anhygoel. Mae’r RSPB wedi datblygu safbwynt unigryw ynglŷn â swyddogaeth y Gyfarwyddeb Adar (a’r Gyfarwyddeb Cynefinoedd a ddatblygwyd yn fwy diweddar), sy’n deillio o 30 mlynedd o weithio i sicrhau bod y camau gweithredu yn effeithiol ac yn fuddiol mewn cymdeithas gymhleth.

Mae’r RSPB yn credu y bydd y Gyfarwyddeb Adar, ynghyd â’r Gyfarwyddeb Cynefinoedd, yn ganolog i sicrhau bod y DU a’r UE yn cyfrannu at y gwaith o atal a gwrthdroi’r broses o golli bioamrywiaeth fyd-eang erbyn 2020. Byddant yn hollbwysig o ran helpu bywyd gwyllt i addasu i’r newid yn yr hinsawdd.

Daeth Deddf Newid yn yr Hinsawdd i rym yn 2008 yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon; daeth deddf debyg i rym yn yr Alban yn 2009. Ar lefel y DU ac Ewrop, ni fydd ymrwymiadau i atal y broses o golli bioamrywiaeth erbyn 2010 yn cael eu cyflawni. Bydd etholiadau Senedd Ewrop ac etholiadau yn y DU yn helpu i lunio ein hymateb i anhrefn hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. Mae’r Gyfarwyddeb Adar yn sylfaen gadarn i ymateb i heriau’r dyfodol.

Er bod pen-blwydd y Gyfarwyddeb Adar yn 30 oed yn garreg filltir arwyddocaol, mae’r penderfyniadau ynglŷn â’i swyddogaeth yn y dyfodol yn bwysicach o lawer. Mae’n rhaid i’r penderfyniadau hynny arwain at:

- **Rwydwaith Natura 2000 cynhwysfawr ar y tir ac ar y môr:** er bod llawer iawn eisoes wedi’i gyflawni, mae yna fylchau o hyd yn y gyfres bwysig hon o ardaloedd gwarchodedig, yn enwedig yn y môr.
- **Rheoli rhwydwaith Natura 2000 yn briodol:** mae angen amcanion cadwraeth clir, cyfarwyddebau rheoli a phroses o reoleiddio defnyddiau nad ydynt yn gydnaws â chadwraeth ar gyfer pob safle.
- **Ariannu rhwydwaith Natura 2000 yn ddigonol drwy ddefnyddio cronfeydd yr UE a chronfeydd cenedlaethol:** er bod pob aelod-wladwriaeth wedi neilltuo rhywfaint o arian yr UE ar gyfer cadwraeth natur, fel arfer nid yw’n fwy na chanran fechan iawn o gyfanswm eu dyraniad, ac nid yw’n ddigon i greu rhwydwaith ardaloedd gwarchodedig gyda’r gorau yn y byd.
- **Bod yn gydnaws â deddfau eraill yr UE a deddfwriaeth genedlaethol, a sicrhau llai o wrthdaro â nhw:** mae angen manteisio ar elfennau sy’n gydnaws â deddfwriaeth amgylcheddol yr UE a deddfwriaeth ddomestig i helpu i weithredu amcanion y Cyfarwyddebau Natur. Ar y llaw arall, mae sawl polisi o eiddo’r UE yn gwrthdaro ag amcanion y Cyfarwyddebau Natur, ac mae’n rhaid unioni hyn.
- **Helpu bywyd gwyllt i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd:** ni wnaed defnydd llawn eto o hyblygrwydd y Cyfarwyddebau Natur i fynd i’r afael â newid yn yr hinsawdd drwy weithredu’r cyfarwyddebau yn gadarnhaol, gan adael bywyd gwyllt Ewrop yn agored i niwed yn sgil y newid yn yr hinsawdd.
- **Cynyddu ymwybyddiaeth a chymorth y cyhoedd:** er gwaethaf ymdrechion holl wledydd yr UE i hysbysu’r cyhoedd am y Cyfarwyddebau, mae yna lawer o gamddealltwriaeth a gwybodaeth anghywir o hyd ynglŷn â’u dyletswyddau a’u cyfleoedd. Yn aml, mae’r diffyg dealltwriaeth hwn yn peri i grwpiau amrywiol sy’n cynrychioli diwydiant, amaethyddiaeth a sectorau eraill deimlo’n anesmwyth ynglŷn â’r Cyfarwyddebau. Erys yr her i hysbysu ac ymgysylltu â’r sectorau, cymunedau a grwpiau buddiant perthnasol er mwyn gweithredu’r Cyfarwyddebau Natur yn well.

Mark Hamblin (rspb-images.com)

Achub lleoedd arbennig

Mae'r Gyfarwyddeb Adar yn berthnasol i gadwraeth adar gwyllt o bob math ledled yr UE. Mae'n cynnwys ardaloedd ar y tir ac ar y môr, ac yn ymwneud â'r prosesau o'u gwarchod, eu rheoli, eu harolygu a manteisio arnynt. Mae'n berthnasol i'r adar eu hunain, i'w hwyau, eu nythod a'u cynefinoedd. Mae'n ofynnol i Aelod-Wladwriaethau gymryd pa bynnag gamau sydd eu hangen i gynnal poblogaethau adar gwyllt o bob math ar lefelau sy'n cael eu pennu gan anghenion ecolegol, gwyddonol a diwylliannol, gan ystyried anghenion economaidd a hamdden.

Mae'r Gyfarwyddeb Adar yn ei gwneud hi'n ofynnol i Aelod-Wladwriaethau'r UE warchod, cynnal ac ailsefydlu cynefinoedd o amrywiaeth a maint digonol ar gyfer adar gwyllt o bob math. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen gwarchod, rheoli ac adfer yr ardaloedd gorau, yn ogystal ag adfer a chreu cynefinoedd yng nghefn gwlad y tu allan i safleoedd o'r fath. Mae'r adran ganlynol yn ystyried agweddau allweddol ar y gofyniad hwnnw – nodi, dynodi, gwarchod a rheoli Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA).

Dyma rai yn unig o'r camau arbennig y mae'n rhaid i Aelod-Wladwriaeth eu cymryd mewn perthynas â rhywogaethau prin, dan fygythiad neu agored i niwed ar Atodiad 1 o'r Gyfarwyddeb, yn ogystal â mewn perthynas ag adar mudol cyffredin. Mae yna bwyslais ar wlypdiroedd, yn enwedig y rhai sydd o bwysigrwydd rhyngwladol. Dylai'r rhwydwaith safleoedd gynnwys ardaloedd nythu, bwrw plu a gaeafu'r rhywogaethau perthnasol, yn ogystal â mannau aros hanfodol ar hyd eu llwybrau mudo.

Mae'r gwaith o nodi, dynodi, gwarchod a rheoli AGA yn cynnig cryn her, ond mae'n rhaid llwyddo er mwyn cyflawni amcanion y Gyfarwyddeb yn llawn.

Bob blwyddyn, mae AGA a gwarchodfa natur yr RSPB yn Loch Garten yn derbyn tua 33,000 o ymwelwyr. Mae pobl sy'n cael eu denu yno i weld gwalch y pysgod yn creu £1.5 miliwn ar gyfer yr economi leol.

DIFFINIAD O NATURA 2000 – RHWYDWAITH AM OES

Dychmygwch rwydwaith o'r mannau gorau ar gyfer byd natur wedi'i ymestyn ar draws pob un o 27 gwlad yr Undeb Ewropeaidd - o wlypdiroedd arfordirol llydan, trwy goedwigoedd tal i'r mynyddoedd uchaf. Dyma rai o'r tirweddau mwyaf eiconig a phoblogaidd yn Ewrop. Dylai'r ysfa i'w gwarchod fod yn ymateb naturiol i'w harddwch a'u gwerth cynhenid.

Y newyddion da yw bod gennym rwydwaith o'r fath – er yn anghyflawn mewn mannau. Ei enw yw Natura 2000. Mae'n cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a ddynodwyd o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd 1992 ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a ddynodwyd o dan Gyfarwyddeb Adar 1979. Mae'r rhain yn cael eu dethol gan ddefnyddio meini prawf gwyddonol manwl er mwyn gwarchod y rhywogaethau a'r cynefinoedd pwysicaf, mwyaf agored i niwed yn Ewrop. Nid gwarchodfeydd natur mohonynt fel arfer; maent yn canolbwyntio ar sicrhau bod y broses reoli yn y dyfodol yn gynaliadwy, o safbwynt ecoleg a'r economi. Mae'r rhwydwaith o ardaloedd gwarchodedig hefyd yn cyflawni rhai o rwymedigaethau'r Comisiwn Ewropeaidd o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol.

Mae rhwydwaith gwarchodfeydd natur yr RSPB yn cynnwys dros 90 o safleoedd AGA yn y DU. Rydym hefyd yn defnyddio'r system gynllunio i geisio sicrhau nad yw cynigion datblygu yn niweidio AGA. Yn 2007 buom yn ymwneud â 253 o gynigion a oedd yn effeithio ar AGA. Rydym yn ymgyrchu i sicrhau bod Llywodraeth y DU yn anrhydeddu ei hymrwymiad i ddynodi digon o safleoedd Natura 2000, er mwyn cyflawni ei rhwymedigaethau i warchod rhywogaethau a chynefinoedd pwysicaf Ewrop.

Nodi a dynodi

Rhaid defnyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael wrth ddiffinio Ardal Gwarchodaeth Arbennig ar y tir neu ar y môr. Mae gan BirdLife International hanes a phrofiad llwyddiannus heb ei ail o nodi ardaloedd i'w blaenoriaethu ar gyfer cadwraeth adar (yr RSPB yw partner y sefydliad hwn yn y DU). Enw'r ardaloedd hyn yw Ardaloedd Pwysig ar gyfer Adar ac maent wedi'u nodi'n fyd-eang. Yn Ewrop, mae'r rhwydwaith Ardaloedd Pwysig ar gyfer Adar yn ystyriaeth allweddol o ran helpu Aelod-Wladwriaethau i nodi lleoliad AGA, ac mae'r dull gweithredu hwn wedi derbyn sêl bendith Llys Cyfiawnder Ewrop ar sawl achlysur.

Yn y DU, mae'r Llywodraeth wedi datblygu ei chanllawiau ei hun ar gyfer dethol AGA. Mae hyn wedi arwain at rwydwaith AGA llai o lawer na'r hyn a ddynodwyd gan rwydwaith BirdLife o Ardaloedd Pwysig ar gyfer Adar yn y DU .

David Tipling (rspb-images.com)

Mae safleoedd nythu adar y môr fel huganod yn cael eu gwarchod gan amlaf – ond nid felly safleoedd ar y môr sy'n fannau bwydo hanfodol.

Er bod Llywodraeth y DU wedi bod yn dynodi AGA ers 30 mlynedd, mae dadansoddiad yr RSPB wedi dangos bod yna fylchau sylweddol yn rhwydwaith AGA'r DU. Mae hyn yn gadael adar prin, adar mudol ac adar o dan fygythiad yn agored i niwed wrth i'r defnydd o dir a'r dulliau o'i reoli newid. Mae'r meysydd allweddol sydd angen sylw brys yn cynnwys:

- cynefinoedd arfordirol, rhynglanw, cors bori a chynefinoedd cysylltiedig a ffermir, sy'n hanfodol i boblogaethau adar y dŵr AGA
- cynefinoedd ffridd sy'n gyfagos i lawer o ardaloedd yr ucheldir ac yn bwysig i rydyddion sy'n nythu ac adar ysglyfaethus fel y cudyll bach
- rhywogaethau prin ac agored i niwed fel ehedydd y coed, y troellwr mawr, telor y dŵr, y frân goesgoch ac aderyn y bwn
- ardaloedd ger y traeth ac ar y môr ar gyfer adar y môr sy'n nythu ac adar y môr nad ydynt yn nythu.

Yn yr Alban, lle cafwyd rhai o'r bylchau mwyaf, mae cynnydd sylweddol a boddhaol wedi'i wneud o ran gwella'r ddarpariaeth AGA ar gyfer rhai o adar y DU sy'n wynebu'r bygythiad mwyaf, gan gynnwys y boda tinwyn, y frân goesgoch, grugiar y coed a rhegen yr ŷd. Cafwyd cytundeb hefyd ynglŷn â dulliau o ddod o hyd i safleoedd ar gyfer yr eryr euraid. Fodd bynnag, yn gyffredinol mae yna ffordd bell i fynd cyn bod rhwydwaith AGA'r DU yn addas i'r diben. Mae'r her fwyaf yn perthyn i faes amgylchedd y môr, lle mae'r ffaith na ddynodwyd rhwydwaith AGA cydlynol yn achosi problemau i adar y môr ac yn creu ansicrwydd wrth gynllunio i ehangu'r diwydiant cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y môr.

Mae gan y DU gyfraniad allweddol i'w wneud o ran helpu i gwblhau rhwydwaith Natura 2000. Bydd yr RSPB yn ymgyrchu i sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei wneud ar y tir erbyn 2010 ac ar y môr erbyn 2012.

Gwarchod a rheoli

Ym 1992, mabwysiadodd yr UE chwaer gyfarwyddeb, y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (Gwarchod Cynefinoedd Naturiol a Phlanhigion ac Anifeiliaid Gwyllt 92/43/EEC). Mae hyn yn cynnwys mesurau i warchod, rheoli a, lle bo angen, adfer safleoedd Natura 2000, gan gynnwys AGA. Mae Erthygl 6 yn pennu dyletswyddau i reoli a gwarchod AGA mewn ffordd sy'n osgoi dirywiad neu ddifrod i'r rhywogaethau a'r cynefinoedd y maent wedi'u dynodi ar eu cyfer. Ceir pwyslais cryf ar gymryd camau i osgoi difrod, dirywiad neu aflonyddu, yn hytrach na chymryd camau ar ôl i hynny ddigwydd.

Mae Erthygl 6 yn gwarchod AGA yn gadarn rhag newid niweidiol i'r defnydd o dir, gan lwyddo i rwystro cynigion datblygu amhriodol, ac annog datblygwyr i ganfod ffyrdd o osgoi neu leihau effeithiau niweidiol yn y lle cyntaf. Mae sectorau allweddol fel y diwydiant porthladdoedd wedi dysgu sut i weithio'n adeiladol gyda'r Cyfarwyddebau, gan osod esiampl gadarnhaol i sectorau diwydiannol a masnachol eraill yn y DU a'r UE (gweler tudalen 18 ar gyfer astudiaeth achos y Tafwys). O'u defnyddio'n effeithiol, gall profion allweddol Erthygl 6 arwain at ddatblygu cynaliadwy gwirioneddol. Yn ôl ein profiad ni, mae datblygwyr yn ystyried y Cyfarwyddebau fwyfwy fel fframwaith sy'n gallu arwain at ganlyniadau effeithiol.

Gwarchod AGA yw'r cam cyntaf allweddol. Sicrhau eu bod yn cael eu rheoli, a, lle bo angen, eu gwneud yn effeithiol eto yw'r cam nesaf. Mae angen iddynt gael eu hariannu'n ddigonol, a thargedu'r arian i sicrhau bod amcanion cadarn ar gyfer cadwraeth safleoedd yn cael eu pennu ar gyfer pob AGA a bod y camau rheoli angenrheidiol yn cael eu rhoi ar waith i gyflawni'r amcanion hynny ar lawr gwlad. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod AGA yn cyfrannu'n llawn at y gwaith o adfer a chynnal poblogaethau rhywogaethau Atodiad I a'r rhywogaethau mudol y maent wedi'u dynodi ar eu cyfer.

Y Gyfarwyddeb Cynefinoedd

Nod y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yw gwarchod rhestr darged o rywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion (heb gynnwys adar) a chynefinoedd sydd o bwysigrwydd i'r Gymuned Ewropeaidd. Mae'n sefydlu'r rhwydwaith Natura 2000 i ddiogelu'r rhywogaethau hynny lle mae ardaloedd gwarchodedig yn cael eu hystyried yn angenrheidiol i sicrhau eu cadwraeth. Mae'n pennu proses fanwl ar gyfer dynodi, rheoli a gwarchod y safleoedd hyn, ac mae'n cynnwys AGA yn Natura 2000. Mae hefyd yn darparu system warchodaeth ac yn rheoleiddio'r ffordd y gellir manteisio ar restr hirach o rywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion.

Mae safleoedd Natura 2000 yn cael eu gwarchod gan gyfres o brofion dilyniannol y mae'n rhaid eu defnyddio wrth ystyried cyflwyno cynllun neu brosiect defnydd tir sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar safle Natura 2000. Y nod yw osgoi difrod i safleoedd Natura 2000 lle bo hynny'n bosibl, o ystyried mai dyma'r lleoedd gorau ar gyfer bywyd gwyllt yn Ewrop. Ar y cyfan mae'r system yn gweithio'n dda iawn, ond mewn achosion prin lle na ellir gwarantu na fydd unrhyw ddifrod, dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol y gall y cynllun neu'r prosiect barhau:

- dangosir nad oes unrhyw ddewis arall llai niweidiol
- mae manteision y cynllun neu'r prosiect yn drech na'r angen i warchod pwysigrwydd Ewropeaidd y safle ar gyfer cadwraeth natur (bod yna "resymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig" i barhau â'r cynllun neu'r prosiect)
- mae cynefin amgen addas wedi'i sicrhau i warchod rhwydwaith Natura 2000.

Danny Green (rspb-images.com)

Mae dros 1,200 o barau o'r trochydd gyddfgoch yn nythu ger llynnoedd ynysig yng ngogledd a gorllewin yr Alban. Yn y gaeaf, maent yn colli eu gyddfau coch ac yn ymgasglu ar y môr mewn ardaloedd fel aber allanol yr Afon Tafwys.

Stori dwy fferm wynt - Lewis a'r London Array

Mae cri ingol y trochydd gyddfgoch yn nodi bod y gwanwyn wedi cyrraedd ar fawndiroedd anghysbell Ynys Lewis. Mae'r dirwedd wyllt, agored yn cael ei diogelu fel Ardal Gwarchodaeth Arbennig. Yn y gaeaf, mae'r un rhywogaeth, sydd bellach yn ddistaw ac yn llwm yn ei phlu gaeafol, yn ymgasglu ar y môr yn aber allanol yr Afon Tafwys - ardal sydd bellach wedi'i dynodi'n Ardal Gwarchodaeth Arbennig. Mae un aderyn yn cysylltu dau le arbennig, y ddau'n hollbwysig i'w oroesiad ar adegau hanfodol o'r flwyddyn.

Mae'r gwynt cryf yn gyfaill i'r trochydd wrth iddo chwipio ar draws Ynysoedd y Gorllewin neu i lawr Aber yr Afon Tafwys. O'i ddefnyddio'n ddoeth, gall y gwynt ddarparu adnodd ynni adnewyddadwy hanfodol, ac mae wedi dod â'r ddau le i amlygrwydd wrth i'r DU geisio datblygu ynni gwynt.

Mae'r ddau leoliad wedi bod yn ganolbwynt cynigion i adeiladu ffermydd gwynt mawr. Cynigiwyd adeiladu 181 o dyrbinau ar Ynys Lewis, a thua 270 o dyrbinau yn aber allanol yr Afon Tafwys, cyfanswm a fyddai'n creu un o'r ffermydd gwynt mwyaf yn y byd.

Oherwydd effaith debygol y ddau gynnig ar y trochydd gyddfgoch, penderfynodd yr RSPB wrthwynebu. Y perygl i'r aderyn hwn oedd ein prif bryder o safbwynt y datblygiad yn Aber yr Afon Tafwys. Ar Ynys Lewis, roedd yr aderyn yn un o sawl rhywogaeth y dynodwyd yr AGA o'u herwydd, gan gynnwys yr eryr euraid a nifer o rydyddion sy'n nythu yno.

Gwneud y penderfyniad cywir

Ar Ynys Lewis, parhaodd yr RSPB â'i gwrthwynebiad nes i Lywodraeth yr Alban wrthod y cynnig yn y pen draw. Yn yr Afon Tafwys, cafodd fferm wynt y "London Array" ganiatâd cynllunio, gyda'r RSPB nid yn unig yn tynnu ei gwrthwynebiad yn ôl, ond yn cefnogi'r cynnig. Beth arweiniodd at ddau ganlyniad mor wahanol?

Gwersi a ddysgwyd

1) Dechrau yn y man cywir. Mae'r RSPB wedi dangos bod modd diwallu anghenion ynni gwynt y DU heb aberthu ein safleoedd bywyd gwyllt gorau. Nid yw AGA Mawndir Lewis yn lle addas i ddechrau datblygu isadeiledd mawr. Mae'r RSPB yn cefnogi ffermydd gwynt fel ateb i'r newid yn yr hinsawdd mewn ardaloedd lle nad ydynt yn niweidiol i'r lleoedd gorau ar gyfer byd natur; mae yna ddigon o'r lleoedd "addas" hyn.

2) Deall yr effaith. O ganlyniad i arolygon a gynhaliwyd gan ddatblygwr y London Array, datgelwyd pwysigrwydd Ewropeaidd gwirioneddol y dyfroedd hyn i'r trochydd gyddfgoch. Roedd arolygon a gynhaliwyd gan ddatblygwr y London Array wedi cyfrif mwy o drochyddion gyddfgoch na'r nifer a oedd wedi'i gyfrif yn y gorffennol o amgylch holl arfordir y DU. Cafodd pwysigrwydd Ewropeaidd yr ardal ei gydnabod, ac arweiniodd hyn yn uniongyrchol at ail-gynllunio'r fferm wynt i osgoi'r effaith andwyol, gan olygu bod modd i'r RSPB gefnogi'r cynnig ar sail newid yn yr hinsawdd.

Diben y Cyfarwyddebau yw gwarchod ardaloedd yn effeithiol, nid atal datblygiadau. O'u defnyddio'n ddoeth maent yn fframwaith hynod werthfawr ar gyfer datblygu cynaliadwy.

David Kajaer (rspb-images.com)

Adfer a chreu

Nid yw ardaloedd gwarchodedig yn ddigon ar eu pennau eu hunain, fel y cydnabu'r Gyfarwyddeb Adar tua 30 mlynedd yn ôl. Llwyddodd y Gyfarwyddeb Adar i ddwyn ynghyd fesurau i warchod ac adfer y mannau a ddefnyddir gan adar i fwydo, byw a nythu. Mae'n bosibl bod gormod o bwyslais wedi bod yn y gorffennol ar y 'brwydrau' dramatig rhwng datblygu a chadwraeth. Mae disgrifiad o'r fath yn arwynebol. Mae angen brys o hyd i gymryd camau i greu ac adfer amrywiaeth ddigonol o gynefinoedd ledled cefn gwlad, fel y mae Erthygl 3 o'r Gyfarwyddeb Adar yn ei gydnabod. Os gallwn ni gyflawni hyn, gellir gwrthdroi'r dirywiad hanesyddol a pharhaus ym mhoblogaethau ein hadar gwyllt, gan greu poblogaethau iach a gwydn sy'n gallu addasu i heriau newid yn yr hinsawdd a brwydrau'r dyfodol.

Bydd angen camau gweithredu ac adnoddau gan yr UE, Aelod-Wladwriaethau, y sector cadwraeth, rhanddeiliaid allweddol ym myd busnes a diwydiant, a chymunedau lleol er mwyn ein helpu i lunio tirweddau naturiol y dyfodol neu Futurescapes.

Mae'r RSPB eisoes yn cyfrannu'n sylweddol at y gwaith hwn.

Chwith: Gwarchodfa natur Ham Wall yr RSPB yng Ngwlad yr Haf, lle rydym wedi creu gwely cyrs llwyddiannus dros 200 ha dros y blynyddoedd diwethaf o hen weithfeydd mawn. Yn 2009, roedd gan adar y bwn chwe thiriogaeth ar y safle.

David Tipling (rspb-images.com)

> “Mae llawer iawn yn y fantol. Mae Minsmere yn hynod bwysig i adar a bywyd gwyllt, ond mae hefyd wedi bod yn dir sanctaidd i genedlaethau o aelodau'r RSPB a phobl sy'n hoff o fyd natur. Mae'n rhaid i ni wneud popeth posibl i warchod y safle, gan gydnabod bod newid yn anochel. Bydd angen cynllunio'n ofalus i roi'r cyfle gorau posibl i fywyd gwyllt sy'n dibynnu ar Minsmere yn sgil y newid yn yr hinsawdd.”
>
> Adam Rowland, Uwch-reolwr Safle, gwarchodfa natur RSPB Minsmere

Mae angen camau gweithredu brys i greu ac adfer gwelyau cyrs mewn lleoliadau cynaliadwy er mwyn sicrhau bod aderyn y bwn yn gallu sefydlogi a ffynnu yn y dyfodol.

Astudiaeth achos
Arfordir Suffolk a'r Ffeniau

Er mwyn addasu i'r newid yn yr hinsawdd, mae'n rhaid i ni helpu rhai o'n bywyd gwyllt sy'n wynebu'r bygythiad mwyaf i symud i fannau mwy diogel. Gellir gwneud cyfraniad pwysig at y gwaith o helpu bywyd gwyllt i addasu i'r newid yn yr hinsawdd trwy gaffael tir i adfer cynefinoedd.

Yn Lakenheath Fen, ger Caergrawnt, mae'r RSPB wedi newid hen gaeau moron yn ôl yn welyau cyrs a ffen, mewn degawd yn unig. Mae'r gwelyau cyrs hyn bellach yn gyforiog o fywyd gwyllt ac yn darparu cynefinoedd newydd ar gyfer aderyn y bwn. Mae cynefinoedd presennol yr aderyn hwn mewn gwelyau cyrs arfordirol, gan gynnwys gwarchodfa natur Minsmere yr RSPB, mewn perygl wrth i lefel y môr godi a nifer y stormydd gynyddu, sefyllfa sy'n gwaethygu oherwydd y newid yn yr hinsawdd. Wrth i ni ddechrau deall mwy am effaith newid yn yr hinsawdd, bydd angen mwy o fuddsoddiad mewn adfer cynefinoedd er mwyn helpu rhywogaethau a chynefinoedd i addasu.

Mae'r bygythiad uniongyrchol ar hyn o bryd i rannau o warchodfa natur Minsmere yr RSPB, sydd wedi'i dynodi fel AGA, yn deillio o'r perygl cynyddol y gall y môr dorri trwodd i ran o'r safle, sy'n ganlyniad effaith newid yn yr hinsawdd. Mae'r RSPB yn credu y dylid gwarchod y cynefinoedd dŵr croyw pwysig sy'n gwneud Minsmere mor bwysig. Mae hyn yn ymarferol o safbwynt y rhain fwyaf o'r safle at y dyfodol agos, a bydd yn sicrhau bod cynefinoedd sy'n hanfodol i aderyn y bwn yn cael eu gwarchod. Fodd bynnag, mae rhannau o'r safle yn wynebu mwy o berygl ac mae Asiantaeth yr Amgylchedd o'r farn nad yw'n gynaliadwy gwarchod North Marsh am gyfnod o dros 20 mlynedd, o ystyried y rhagfynegiadau presennol ynglŷn ag effaith newid yn yr hinsawdd. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn gyfrifol am reoli'r arfordir, a bydd rhaid iddi ddarparu cynefin dŵr croyw i wneud iawn am golli Minsmere o fewn y cyfnod 20 mlynedd hwn.

Mae dull gweithredu Futurescapes yr RSPB yn y Ffeniau yn dangos y broses ymarferol o ail-greu cynefin dŵr croyw o'r fath, ac mae'r lle eisoes wedi denu 17,000 o ymwelwyr yn 2007/2008.

> “Mae ein cynhyrchion yn hanfodol i gynnydd economaidd y DU, ac mae'n iawn bod y diwydiant yn ymrwymo ei hun i ddatblygu strategaeth sy'n ein gosod wrth wraidd y gwaith o gyfrannu at dargedau bioamrywiaeth y DU.”
>
> Simon van der Byl, Cyfarwyddwr Cyffredinol y Gymdeithas Cynhyrchion Chwareli

Astudiaeth achos
Natur ar ôl Mwynau

Ar lefel Ewropeaidd, mae'r Comisiwn wedi cydnabod bod angen arweiniad clir i helpu diwydiannau cloddio nad ydynt yn ymwneud ag ynni i weithio gyda'r Cyfarwyddebau Adar a Chynefinoedd. Yn y DU, mae brwydrau rhwng y diwydiant cloddio mwynau a chadwraeth natur bron wedi'u hanghofio. Cael eu hadfer y mae safleoedd mwynau heddiw, gan roi cyfle pwysig i greu ardaloedd mawr o gynefinoedd newydd ar gyfer bywyd gwyllt ar draws y dirwedd. Drwy'r prosiect Natur ar ôl Mwynau, mae'r RSPB yn gweithio gyda Natural England, gyda chymorth cadarn y Gymdeithas Cynhyrchion Chwareli, i roi bywyd gwyllt wrth wraidd eu cynlluniau i adfer safleoedd chwareli, gan arwain at fanteision sylweddol i gymunedau lleol.

Mae Natur ar ôl Mwynau yn cyflwyno gweledigaeth sy'n dangos sut y gallai safleoedd mwynau gyfrannu at dargedau Cynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth i greu cynefinoedd. Mae'n gweithio'n agos gyda chynllunwyr a gweithredwyr mwynau i helpu i sicrhau bod hyn yn digwydd. Mae gan safleoedd mwynau gweithredol Lloegr y potensial i ragori ar y targedau mewn perthynas â naw o'r 11 cynefin yr ymchwiliwyd iddynt. Er nad oes disgwyl i safleoedd mwynau gyrraedd targedau ehangu cynefinoedd y DU ar eu pennau eu hunain, maent yn cynnig cyfle sylweddol i wella bioamrywiaeth.

Un o ganlyniadau allweddol y gwaith yw'r cyfle a roddir i ddefnyddwyr edrych ar unrhyw un o'r 1,300 o safleoedd mwynau gweithredol yn Lloegr i weld pa gynefin(oedd) blaenoriaeth y gellid eu creu yno (www.afterminerals.com).

Ar hyn o bryd, mae cyfraniad safleoedd mwynau at dargedau Cynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth lawer yn llai na'r hyn a allai fod. Dyna lle mae gwaith Natur ar ôl Mwynau yn cychwyn. Mae'r rhaglen yn seiliedig ar fioamrywiaeth ac yn ceisio sicrhau bod cynlluniau adfer gweithfeydd mwynau yn addas i'r safle ac yn ystyried buddiannau ehangach fel geoamrywiaeth, tirwedd a gwarchod y pridd.

Mae'r gwaith o greu cynefinoedd o ansawdd uchel ar safleoedd mwynau yn dibynnu ar y lleoliad. Mae'r rhan fwyaf o gynefinoedd yn cael eu pennu gan ffactorau fel daeareg, priddoedd, hinsawdd ac ati – ac mae'n debygol o fod yn llawer haws creu'r cynefin cywir yn y lleoliad cywir, yn ogystal â'r ffaith y bydd yn llawer gwell i fywyd gwyllt. Ceir nifer o brosiectau mapio potensial cynefinoedd yn Lloegr. Er enghraifft, mae Map Natur De-orllewin Lloegr yn dangos yr ardaloedd strategol gorau ar gyfer cynnal ac ehangu cynefinoedd bywyd gwyllt daearol ar raddfa tirwedd yn ne-orllewin Lloegr.

Trwy ddefnyddio adnoddau fel Map Natur De-orllewin Lloegr ar gyfer gwaith cynllunio mwynau strategol, gellir helpu i greu'r rhwydweithiau bywyd gwyllt mwyaf effeithiol a chynhyrchiol. Drwy archwilio lleoliadau arfaethedig ar gyfer safleoedd mwynau'r dyfodol, gellir hefyd ystyried y cynefin mwyaf priodol i adfer pob safle yn gynnar yn y broses.

Mae gan y DU hanes cadarnhaol i'w adrodd wrth weddill Ewrop ynglŷn â sut y gall y diwydiant mwynau a chadwraeth natur gydweithio i gynllunio ar gyfer gweithrediadau echdynnu mwynau newydd a mwy eang. Mae angen gwaith cynllunio gofodol cadarn er mwyn cyrraedd y nod: gall helpu i oresgyn heriau a sicrhau'r budd mwyaf posibl o safbwynt bioamrywiaeth. Mae'n helpu i dargedu gwaith adfer a gwella, er mwyn cyflawni amcanion y Cyfarwyddebau Natur i sicrhau bioamrywiaeth iach a ffyniannus. Mae hefyd yn gwneud cyfraniad at ddatblygu cynaliadwy drwy ddarparu ardaloedd newydd, naturiol i bobl eu mwynhau, yn ogystal â manteision iechyd corfforol a meddyliol cysylltiedig wrth i bobl gael mynediad i gefn gwlad o ansawdd uchel.

Mike Lane (rspb-images.com)

“Byddai cefn gwlad yn lle tlotach heb adar ysglyfaethus… Rwyf am helpu’r adar godidog hyn i ffynnu, ac mae’r cytundeb rhyngwladol a lofnodwyd gan y DU… yn dangos bod y llywodraeth yn ymroddedig i’w goroesiad.”

Huw Irranca-Davies AS, Gweinidog Llywodraeth y DU ar gyfer yr Amgylchedd Naturiol a Morol, Bywyd Gwyllt a Materion Gwledig

“Yn ogystal â gwella bioamrywiaeth yr Alban, mae’r eryr môr ar Ynys Mull wedi denu llawer o dwristiaid… Rwy’n siŵr y byddwn ni’n edrych yn ôl cyn bo hir ac yn methu cofio bywyd heb yr adar anhygoel hyn.”

Michael Russell, Aelod o Senedd yr Alban, Gweinidog yr Amgylchedd gynt, bellach yn Weinidog Diwylliant

Mae’n dda dweud bod yr eryr môr i’w weld yn aml mewn sawl rhan o’r Alban erbyn hyn, diolch i brosiectau adsefydlu gan Scottish Natural Heritage, yr RSPB a’r Comisiwn Coedwigaeth.

Cadwraeth rhywogaethau

Mae 30 mlynedd gyntaf y Gyfarwyddeb Adar wedi canolbwyntio’n glir ar nodi, dynodi a gwarchod y safleoedd gorau. Er y bydd y dull gweithredu hwn yn parhau i fod yn hanfodol, bydd mesurau eraill sy’n canolbwyntio ar rywogaethau penodol hefyd yn bwysig er mwyn gwarchod a diogelu poblogaethau o adar sydd o dan fygythiad. Er enghraifft, bydd y profiad a enillwyd wrth ailgyflwyno rhai rhywogaethau o adar i rannau o’r DU yn llwyddiannus yn bwysig er mwyn galluogi cadwraethwyr i symud poblogaethau a lethwyd gan gyflymder newid yn yr hinsawdd ac sy’n methu ag addasu a symud.

Lladd adar ysglyfaethus yn anghyfreithlon

Mae’r DU wedi colli nifer sylweddol o adar ysglyfaethus yn y gorffennol. Cafodd sawl rhywogaeth, gan gynnwys yr eryr môr a gwalch y pysgod, eu colli’n gyfan gwbl yn y DU o ganlyniad i ladd anghyfreithlon dros sawl degawd. Dros y 30 mlynedd ddiwethaf, mae sefyllfa llawer o adar ysglyfaethus wedi gwella ac mae eu niferoedd yn cynyddu a’u cynefinoedd yn ehangu. Mae deddfwriaeth i warchod rhai rhywogaethau, fel y gwalch glas a’r bwncath, wedi bod yn hollbwysig i’w hadferiad. I eraill, mae polisïau cadwraeth gweithredol, gan gynnwys ailgyflwyno, wedi bod yn hynod lwyddiannus, ac mae’r eryr môr a’r barcud wedi cael eu hadsefydlu fel rhywogaethau sy’n nythu yma. Yn groes i’r duedd gadarnhaol hon, mae rhai adar ysglyfaethus yn cael eu lladd o hyd ledled y DU.

Yn 2007, derbyniodd yr RSPB 262 o adroddiadau am adar ysglyfaethus yn cael eu saethu neu eu dinistrio ledled y DU, y nifer fwyaf erioed. Er bod digon o gynefinoedd i gynnal 500 pâr o’r boda tinwyn, dim ond pum pâr a nythodd yn llwyddiannus ar rostiroedd y grugiar yn Lloegr a’r Alban yn 2008, hynny oherwydd lladd anghyfreithlon ac aflonyddu bwriadol dros sawl degawd. Mae lladd anghyfreithlon wedi atal adferiad yr eryr euraid yn yr Alban ac mae’n llesteirio’r gwaith o’i ailgyflwyno yng ngogledd Lloegr. Mae llawer o’r lladd yn digwydd ar dir a reolir ar gyfer saethu’r grugiar, sy’n golygu nad oes yr un boda tinwyn neu eryr euraid yn byw mewn llawer o gynefinoedd addas yn ucheldiroedd y DU.

Mae’n bwysig parhau i fuddsoddi mewn gwarchod a diogelu adar ysglyfaethus oherwydd y rhesymau canlynol:

- maent yn rhan hanfodol o fioamrywiaeth y DU
- mae eu poblogaethau yn sensitif i weithgarwch pobl
- maent yn ddangosyddion gwerthfawr o gyflwr iechyd yr amgylchedd
- maent yn dod â manteision economaidd drwy dwristiaeth
- maent yn rhan boblogaidd o’n treftadaeth naturiol a diwylliannol.

Adlewyrchwyd cyfraniad rhyngwladol y DU at ddiogelu adar ysglyfaethus yn y cytundeb a luniwyd gan y DU a’r Emiraethau Arabaidd Unedig yn 2008 ar fesurau newydd i warchod adar ysglyfaethus a thylluanod mudol ledled Ewrop, Affrica ac Asia.

Trwy barhau i warchod rhywogaethau dan y gyfraith a rhwystro pobl rhag eu lladd yn anghyfreithlon, gallwn sicrhau bod adar fel y boda tinwyn, yr eryr euraid a’r barcud, sy’n destun mesurau cadwraeth arbennig o dan y Gyfarwyddeb Adar, yn dychwelyd i rai o’r ardaloedd lle nad ydynt i’w gweld ar hyn o bryd. Mae’n rhaid i ni sicrhau hefyd bod polisïau ac arferion mewn perthynas â defnydd tir, gan gynnwys y defnydd cyfreithlon o blaladdwyr a pheledi plwm, yn hybu amgylchedd iach sy’n darparu nwyddau cyhoeddus, gan gynnwys cynefinoedd a bwyd ar gyfer adar ysglyfaethus.

Mae adferiad y rhan fwyaf o adar ysglyfaethus yn y DU yn rhywbeth i ymfalchïo ynddo a’i ddathlu o safbwynt cadwraeth a diwylliant. Mae’r sail resymegol a’r symbyliad ar gyfer diogelu adar ysglyfaethus a geir yn y Gyfarwyddeb Adar yr un mor berthnasol i’r gwaith o’u gwarchod heddiw ag ydoedd adeg ei chreu.

Y Gyfarwyddeb Adar ar waith

Lloegr: amser am Afon Tafwys well

Mae Aber yr Afon Tafwys yn cyfuno elfennau hanfodol o fyd natur a chymdeithas ddynol mewn ffyrdd sy'n rhoi prawf gwirioneddol i'r Gyfarwyddeb Adar. A all fframwaith y Gyfarwyddeb, a ddatblygwyd dri degawd yn ôl, fod yn adnodd cadarn a hyblyg i helpu datblygu cynaliadwy yn yr unfed ganrif ar hugain? Mae'r RSPB o'r farn fod y Gyfarwyddeb Adar wedi cyfrannu at osod y cyd-destun ar gyfer yr Afon Tafwys a sicrhau rhai canlyniadau hynod galonogol.

Roedd y gwaith o ddiwallu anghenion cannoedd ar filoedd o adar gwyllt sy'n dibynnu ar Aber yr Afon Tafwys am eu heinioes, ac anghenion cynyddol poblogaeth Llundain y ddwy ochr i'r afon, yn her sylweddol o'r cychwyn cyntaf. Mae'r broses hanesyddol o golli corsydd pori arfordirol, tirwedd cyfnod Dickens, oherwydd gofynion cynyddol pobl, wedi'i chofnodi'n helaeth. Ond gwyllt yw'r Afon Tafwys yn ei hanfod hyd heddiw.

Ernie Janes (rspb-images.com)

Porth sy'n fwy Gwyrdd

Mae Aber yr Afon Tafwys wedi gweld llawer o newidiadau ac mae'r broses hon yn parhau. Mae'r RSPB yn arwain y rhaglen ddiweddaraf ar gyfer newid – Porth yr Afon Tafwys. Er mwyn cefnogi'r rhaglen Parcdiroedd, mae'r RSPB yn creu 20 km sgwâr o ofod gwyrdd yng Nghaint, Llundain ac Essex, sy'n hanfodol i warchod bywyd gwyllt yr aber yn yr hirdymor ac yn cynnig mynediad i bawb. Rydym yn cefnogi'r amcan o sefydlu'r Porth fel enghraifft o dwf carbon isel ac adfywiad cynaliadwy.

Mae'r RSPB yn gwireddu ein gweledigaeth Futurescapes o greu cynefinoedd ar raddfa fawr yn Aber yr Afon Tafwys, gan ail-greu tirweddau cyfarwydd a chynefinoedd hanfodol. Bydd hyn yn troi'r ardal yn amgylchedd o ansawdd uchel ar gyfer pobl ac o safbwynt datblygu cynaliadwy ar hyd yr Afon Tafwys.

Mae'r RSPB yn argyhoeddedig mai'r gydnabyddiaeth a gafwyd yn sgil dynodiadau'r Gyfarwyddeb Adar sy'n gyfrifol i raddau helaeth am y cyfraniad canolog a wneir heddiw gan amgylchedd naturiol Porth yr Afon Tafwys tuag at sefydlu "rhanbarth eco". Mae Aber yr Afon Tafwys gyda'r gorau yn y byd o safbwynt gwarchod bywyd gwyllt, ac mae wedi'i dynodi i adlewyrchu'r ffaith honno. Mae hyn yn golygu bod modd gwireddu'r manteision a ddaw yn sgil arfordir gwyllt, wedi'i warchod a'i reoli ar gyfer bywyd gwyllt a phobl.

De: Mae modd gweld gwyddau duon a'u clywed yn gwichian wrth gerdded ar lan yr Afon Tafwys yn y gaeaf. Mae eu niferoedd wedi cynyddu yn yr Afon Tafwys diolch i fesurau gwarchod a sbardunwyd gan y Gyfarwyddeb Adar.



Chris Gomersall (rspb-images.com)

> "Mae arfordir Aber yr Afon Tafwys wedi fy ysbrydoli ers amser maith, ac mae'n fy argyhoeddi mai un o'r dulliau allweddol o sicrhau adfywiad cynaliadwy ym Mhorth yr Afon Tafwys yw gosod byd natur wrth wraidd gweledigaeth ar gyfer newid."
>
> Syr Terry Farrell, Hyrwyddwr Cynllunio Parcdiroedd

> “Rydym yn gweithio mewn rhai o’r amgylcheddau arfordirol mwyaf sensitif yn y Deyrnas Unedig. Mae angen llawer o waith ac ymdrech i sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen i ehangu’r porthladdoedd a’r angen i warchod rhai o’r safleoedd mwyaf sensitif yn Ewrop.”
>
> Richard Everitt, Cadeirydd Grŵp Prif Borthladdoedd y Deyrnas Unedig a Phrif Weithredwr Awdurdod Porthladd Llundain

Astudiaeth achos

Porthladdoedd ar yr Afon Tafwys

Mae Llundain yn un o brif ddinasoedd y byd. Mae pwysau economaidd sylweddol yn cael ei greu o gwmpas y brifddinas, yn enwedig ar yr Afon Tafwys, sydd wedi cysylltu Llundain â gweddill y byd ers canrifoedd. Dyma ddwy enghraifft o ddatblygiad porthladdoedd sy’n amlygu’r ffordd y mae newid mewn agweddau tuag at y Gyfarwyddeb Adar wedi helpu i leihau’r pwysau ar fyd natur.

Ym 1989, cyflwynodd Awdurdod Porthladdoedd Medway gais llwyddiannus am ganiatâd cynllunio ar gyfer cyfleuster storio ceir a nwyddau ar dir a gafodd ei nodi’n ddiweddarach fel rhan hanfodol o AGA Aber a Chorsydd yr Afon Medway: ardal o’r enw Lappel Bank. Cafodd y datblygiad ei ohirio tan ar ôl i’r AGA gael ei ddynodi. Ond penderfynodd yr Ysgrifennydd Gwladol eithrio Lappel Bank o’r AGA, er nad oedd unrhyw resymau gwyddonol dros wneud hynny a bod y penderfyniad yn groes i ddarpariaethau’r Gyfarwyddeb Adar.

© Sam Ashfield

Fe aeth yr RSPB ati i herio’r penderfyniad hwn ar sail gyfreithiol, a chyfeiriwyd yr achos at Lys Cyfiawnder Ewrop yn y pen draw. Dyfarnodd y Llys fod Llywodraeth y DU wedi gweithredu’n anghyfreithlon, a derbyniodd y Llywodraeth bod yn rhaid iddi wneud iawn am golli Lappel Bank, gan fod y datblygiad wedi mynd rhagddo erbyn hynny a’r safle wedi’i ddinistrio. I wneud iawn am golli’r safle, cafodd un arall ei greu ar Ynys Wallasea yn Essex, er y bu’n rhaid aros 11 mlynedd cyn i hynny ddigwydd.

Erbyn 2001, roedd y diwydiant porthladdoedd wedi datblygu agwedd fwy adeiladol tuag at y Cyfarwyddebau Natur. Cyflwynodd P&O (DP World erbyn hyn) gais i adeiladu porthladd mawr - Porth Llundain - ger AGA Aber a Chorsydd yr Afon Tafwys yn Shellhaven ar arfordir Essex. Penderfynodd yr RSPB ac eraill wrthwynebu’r cais oherwydd y niwed disgwyliedig i gynefinoedd rhynglanw a’r goblygiadau ar gyfer adar gwyllt a rhydyddion. Yn yr achos hwn, cafwyd cytundeb â P&O sydd nid yn unig wedi sicrhau caniatâd ar gyfer y datblygiad, ond a fydd hefyd yn rhoi mesurau lliniaru a digolledu cynhwysfawr ar waith. Bydd porthladd yn cael ei ddatblygu, gan greu 12,000 o swyddi newydd, a bydd un o safleoedd bywyd gwyllt pwysicaf y DU yn cael ei warchod yn effeithiol.

Amlygir y berthynas fwy cadarnhaol sy’n bodoli rhwng y diwydiant porthladdoedd a’r maes cadwraeth gan bartneriaeth rhwng yr RSPB ac Awdurdod Porthladd Llundain. Y canlyniad yw Fframwaith Rheoli Cadwraeth sy’n ystyried gwaith a datblygiad y porthladd ochr yn ochr ag anghenion bioamrywiaeth, gan gynnwys diogelu’r safleoedd Natura 2000 ar yr Afon Tafwys. Gallai dull gweithredu o’r fath fod yn fanteisiol iawn o’i fabwysiadu mewn aberoedd eraill ble mae porthladdoedd a bywyd gwyllt yn rhyngweithio.

> “Mae cwmpas a graddfa prosiectau Crossrail ac Arfordir Gwyllt Ynys Wallasea yn syfrdanol. Mae hyn yn cyfleu neges hynod gryf i ddatblygwyr a chadwraethwyr am yr angen i gydweithio.”
>
> Jeff Kew, Rheolwr Gweithrediadau (Prosiectau) yr RSPB

Arfordir Gwyllt Ynys Wallasea

Mae Ynys Wallasea yn cael ei ffinio gan yr afonydd Crouch a Roach sy’n llifo i Aber yr Afon Tafwys. Mae’r ynys wedi cael ei ffermio ers degawdau ac mae’n rhan o’r 90% o arfordir Essex sydd wedi’i adennill o’r môr. Mae’r forlin wedi’i cholli i’r bywyd gwyllt sy’n dibynnu arni, ond nid oes mynediad i bobl chwaith.

Ar ymyl ogleddol Wallasea mae’r llanw a thrai yn symud eto ar draws traethellau llaid sy’n llawn adar. Dyma’r safle a ddewisodd Llywodraeth y DU i wneud iawn am golli Lappel Bank yng Nghaint, a Fagbury Flats, Suffolk, bron i 20 mlynedd yn gynharach. Nid oes gobaith i’r tir ffermio isel ar weddill Ynys Wallasea, tua 750 hectar ohono, gan y bydd y cynnydd yn lefel y môr yn sgil y newid yn yr hinsawdd yn drech na’r amddiffynfeydd arfordirol.

Mae prosiect Arfordir Gwyllt Ynys Wallasea yn amlygu egwyddorion Futurescapes yr RSPB. Byddwn yn ail-greu cynefin wedi’i integreiddio’n ofalus ag AGA Aberoedd yr Afonydd Crouch a Roach. Bydd y gwaith o adfer y rhan hon o arfordir Essex yn cael ei reoli’n ofalus er mwyn sicrhau’r canlyniad gorau posibl i fywyd gwyllt, ac yn hollbwysig, i’r bobl sy’n byw yn Essex ac yn mwynhau’r arfordir gwyllt.

Mae’r gwaith adfer yn arloesol ac yn ddrud, ac mae’n un o’r prosiectau mwyaf o’i fath yn Ewrop. Yr allwedd i lwyddiant yw partneriaeth gyda Crossrail, y prosiect sy’n creu cyswllt rheilffordd newydd ar draws Llundain. Roedd Crossrail yn chwilio am ffordd gynaliadwy o waredu deunydd gwastraff a gaiff ei gloddio wrth adeiladu’r cyswllt rheilffordd newydd o’r dwyrain i’r gorllewin o dan Lundain. Trwy gysylltu hyn ag amcanion prosiect Arfordir Gwyllt Ynys Wallasea ceir ateb taclus i’r broblem yn ogystal â modd cost-effeithiol o roi’r ddau brosiect ar waith. Mae’n dwyn ynghyd ddatblygiad sy’n hanfodol i Lundain a phrosiect arloesol i adfer yr arfordir. Sylfaen y cwbl yw’r angen a nodir yn y Gyfarwyddeb Adar i adfer y mannau a ddefnyddir gan adar i fwydo, byw a nythu.

Hanes yn ailadrodd ei hun

Roedd y cynnig i adeiladu trydydd maes awyr Llundain ar Maplin Sands, oddi ar arfordir Foulness yn Essex, yn bwnc llosg yn ystod y 1960au. Er gwaethaf ei wrthwynebiad digyfaddawd i’r datblygiad, methodd mudiad cadwraethol y dydd â chyflwyno achos oedd yn argyhoeddi yn llawn, yn rhannol oherwydd prinder data a gasglwyd ac a ddadansoddwyd yn systematig. Arweiniodd hyn yn uniongyrchol at sefydlu Ymchwiliad i Adar yr Aberoedd ym 1969, sy’n parhau hyd heddiw ar ffurf Arolwg Adar y Gwlyptir a gynhelir gan Ymddiriedolaeth Adareg Prydain, diolch i gyllid gan JNCC, RSPB ac Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir.

Arweiniodd y cynnig i adeiladu’r maes awyr at y cyfnod modern o gadwraeth natur sy’n seiliedig ar amcanion a gwyddoniaeth, ac mae’n gyswllt uniongyrchol â’r gwaith o ddatblygu’r Gyfarwyddeb Adar ddegawd yn ddiweddarach. Methodd y cynnig i adeiladu maes awyr oherwydd ei ddiffygion economaidd.

Nid yw’r dyhead i adeiladu maes awyr ger Aber yr Afon Tafwys wedi diflannu mewn gwirionedd, a chododd y mater eto yn 2002 gyda chynnig i adeiladu maes awyr pedair rhedfa ar benrhyn Hoo yng Nghaint. Y tro hwn roedd y sail wybodaeth yn bur eang, a dadansoddwyd yr effaith ar AGA yn glir. Yn ogystal â gwendidau yn yr achos economaidd, roedd effaith amgylcheddol y cynnig yn allweddol i’r penderfyniad i hepgor y dewis hwn o Bapur Gwyn y Llywodraeth ar Drafnidiaeth Awyr. Roedd hyn yn golygu na fyddai’r opsiwn i adeiladu maes awyr ger Aber yr Afon Tafwys yn cael ei ystyried.

Ond nid dyna ddiwedd y stori. Mae Maer Llundain wedi comisiynu astudiaethau pellach yn ymwneud â chynnig arall i adeiladu maes awyr o’r fath, er gwaethaf y ffaith fod hanes wedi dangos yn glir mai hwn yw’r opsiwn anghywir yn y lle anghywir.



© Kevin Allen/Alamy

“Dylai'r Cyfarwyddebau gael eu gweld fel dull goleuedig o ymdrin â chyfyngiadau amgylcheddol, a dull sydd wrth wraidd Datblygu Cynaliadwy.”

Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, *Turning the Tide*

Y Gyfarwyddeb Adar ar waith

Cymru a Lloegr: rhyfeddodau'r Afon Hafren

Mae amrediad llanw anferth Aber Hafren wedi codi cwestiwn llawn her ers amser maith. Sut y gellir manteisio ar ynni helaeth y llanw heb ddinistrio amgylchedd naturiol yr Hafren? Wrth i lywodraethau geisio mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd sy'n wynebu'r byd, mae'r ddadl o blaid codi morglawdd ar draws yr Hafren yn ymddangos yn un hynod gryf. Mae'r RSPB yn ymroddedig i gefnogi chwyldro ynni adnewyddadwy sy'n canolbwyntio ar yr angen i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a sicrhau ein bod yn cyflawni'n hymrwymiadau i ddiogelu byd natur.

Y dadansoddiad cyfredol o gynigion i fanteisio ar ynni'r llanw yn yr Hafren yw'r prawf gwleidyddol anoddaf ar y Cyfarwyddebau Adar a Chynefinoedd yn y DU. Rydym yn credu bod fframwaith llwyddiannus y Cyfarwyddebau Natur yn adnodd hanfodol i helpu i wneud y penderfyniadau cywir ar gyfer yr Hafren, pa mor anodd bynnag y byddant. Ni ddylent gael eu hystyried yn rhwystr i ddatblygiadau priodol.

Rydym yn gwrthod y ddadl bod newid yn yr hinsawdd mor bwysig nes bod meini prawf y Cyfarwyddebau Natur bellach yn amhriodol. Mae difrifoldeb y sefyllfa bresennol yn golygu bod angen system gadarn a llwyddiannus i helpu i sicrhau nad yw byd natur yn cael ei aberthu yn ddiangen. Dadl yr RSPB yw bod angen ymchwilio i gynlluniau ynni'r llanw sy'n achosi llai o niwed i'r amgylchedd na morglawdd, er mwyn ceisio dod o hyd i'r opsiwn lleiaf niweidiol.

Mae'r dynodiadau eu hunain yn caniatáu dadansoddiad cadarn o'r effeithiau tebygol o'u cymharu â llinellau sylfaen wedi'u diffinio'n glir. Mae'r gofynion sydd ar y DU i ystyried mesurau lliniaru, ac, os oes angen, digolledu, yn fframio'r dadleuon yn ymwneud â'r cynigion mewn ffordd sy'n amlygu eu goblygiadau gwirioneddol. Efallai bydd y gwirionedd yn anghyfleus, ond dyna'r unig sylfaen ar gyfer gwneud penderfyniadau doeth a sicrhau bod y cynigion yn wirioneddol gynaliadwy. Roedd adroddiad 2007 y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, *Turning the Tide – Tidal Power in the UK,* yn cydnabod pwysigrwydd rhyngwladol yr Hafren i fywyd gwyllt ac yn atgyfnerthu ein safbwynt bod y Cyfarwyddebau Adar a Chynefinoedd yn brawf da ar gynaliadwyedd unrhyw gynnig i fanteisio ar ynni llanw'r Hafren.

Wrth ystyried swyddogaeth y Cyfarwyddebau Adar a Chynefinoedd mewn perthynas ag ynni'r llanw yn yr Hafren, daeth y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy i'r casgliadau canlynol:

> “Mae'r Cyfarwyddebau yn cael eu llywio gan wyddoniaeth gadarn, ac yn sefydlu proses eglur ar gyfer gwneud penderfyniadau gyda'r nod o hwyluso 'llywodraethu da', tra'n cydnabod pwysigrwydd amcanion economaidd a chymdeithasol wrth wneud penderfyniadau yn ymwneud â datblygu.
>
> Dylai'r Cyfarwyddebau gael eu gweld fel dull goleuedig o ymdrin â chyfyngiadau amgylcheddol, a dull sydd wrth wraidd Datblygu Cynaliadwy.
>
> Wrth roi'r syniad o 'fyw o fewn cyfyngiadau amgylcheddol' ar waith yn ymarferol, bydd rhaid sefydlu cyfyngiadau absoliwt ar rai agweddau ar ddatblygiad dynol yn y pen draw. Fel arall, byddai'r term yn ddiystyr.”

Y Gyfarwyddeb Adar ar waith

Yr Alban: gweithredu yn y mawndiroedd

Mawndiroedd gogledd yr Alban

Mawndiroedd Caithness a Sutherland, ym mhegwn gogleddol eithaf yr Alban, yw ardal orgors fwyaf a mwyaf cyflawn Ewrop, os nad y byd. Mae dros draean o'r 400,000 hectar o orgors yn y gornel hon o Ucheldir yr Alban yn cael ei gwarchod gan rwydwaith Natura 2000, nid yn unig oherwydd ansawdd y cynefin mawndir, ond hefyd oherwydd bod poblogaethau anhygoel o adar y gwlyptir yn nythu yno, gan gynnwys y cwtiad aur, pibydd y mawn, y pibydd coeswyrdd, y trochydd gyddfgoch a'r trochydd gyddfddu, y môr-hwyaden ddu, y gorhwyaden a'r chwiwell. Mae ardaloedd sychach hefyd yn darparu safleoedd nythu ar gyfer adar ysglyfaethus fel y boda tinwyn, y cudyll bach a'r eryr euraid.

Gan fod y tirwedd mor eang a gwlyb, llwyddodd llawer iawn o gynefin mawndir Caithness a Sutherland i osgoi gwaith datblygu tan ddiwedd y 1970au, pan gynigiwyd plannu llawer o goed conwydd masnachol, tramor yn yr ardal. Erbyn canol y 1980au, roedd bron i un rhan o bump o'r ardal mawndir wedi'i gorchuddio â choed, neu wedi'i dynodi ar gyfer hynny, gan gwmnïau coedwigaeth preifat a'r sector cyhoeddus. Defnyddiwyd peiriannau trwm ar gyfer aredig dwfn wrth baratoi i blannu'r coed ar y mawndir, gan ymestyn y difrod i gynefinoedd gorgorsydd y tu hwnt i'r ardaloedd lle plannwyd y coed.

Ar y pryd, roedd rheolau'r llywodraeth yn caniatáu plannu ar unrhyw dir nad oedd wedi'i ddynodi'n benodol ar gyfer gwarchod natur. Roedd y difrod yn cael ei lywio gan eithriadau treth. Yn dilyn ymgyrchu gan yr RSPB a chyrff anllywodraethol eraill, a chyflwyniadau gan gynghorwyr gwarchod natur y llywodraeth, ym 1988 cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol yr Alban ei gefnogaeth i warchod hyd at 175,000 hectar o gynefin mawndir oedd yn weddill drwy ehangu rhwydwaith y Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Dros y 10 mlynedd nesaf, dynodwyd 40 SoDdGA er mwyn gwarchod mawndir ac adar y mawndir yn Caithness a Sutherland. Ym 1999, dosbarthwyd y safleoedd hyn fel AGA sengl – Mawndiroedd Caithness a Sutherland - ac yn 2005, fe'i dynodwyd yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA).

Yn ystod yr un cyfnod, prynodd yr RSPB dir ar y mawndiroedd ger Forsinard. Fel rhan o strategaeth mawndir ehangach a gytunwyd gan Lywodraeth yr Alban, SNH, Comisiwn Coedwigaeth yr Alban a Chyngor yr Ucheldir, cychwynnwyd ar raglen waith yno i adfer gorgorsydd sydd wedi'u gorchuddio â choed i greu cynefin mawndir, sy'n gallu gweithredu mewn cyflwr mor naturiol â phosibl.

Cymorth gan yr UE

Ers 1994, mae arian o'r elfen Byd Natur yn Rhaglen LIFE yr UE wedi helpu'r gwaith rheoli ac adfer, yn bennaf ar dir sy'n eiddo i'r RSPB a Chomisiwn Coedwigaeth yr Alban, ond ar dir preifat hefyd. Mae gwaith blocio draeniau ar raddfa fawr o fewn y mawndir a ddynodwyd gan Ewrop yn adfer hydroleg sydd wedi'i difrodi ac yn gwrthdroi effeithiau draenio. Mae gwaith torri coed ac adfer mawndir ar ardaloedd a dargedir ger yr AGA a'r ACA yn helpu i warchod a gwella nodweddion y safle Natura 2000.

Mae'r RSPB yn dirfeddiannwr mawr (yn berchen ar 15,500 hectar) yn y Mawndiroedd, ac mae ganddi gytundebau rheoli i hyrwyddo amcanion cadwraeth dros ardal ehangach fyth. Rydym yn cyflogi saith aelod o staff cyfwerth ag amser llawn yn uniongyrchol ym maes rheoli tir, a chyflogwyd 11 arall yn 2002 diolch i arian a dderbyniwn trwy osod tir pori a gwariant ymwelwyr. Mae twristiaeth yn gyfrifol am tua chwarter yr economi leol ac mae'r rhan fwyaf o ymwelwyr â gwarchodfa'r RSPB yn dod o'r tu allan i'r ardal, gan gynllunio eu taith yn arbennig i ymweld â'r Mawndiroedd.

Heblaw am eu pwysigrwydd i fywyd gwyllt, mae mawndiroedd Caithness a Sutherland yn storfa carbon arwyddocaol: gellir helpu i liniaru effeithiau niweidiol ar yr hinsawdd trwy ddynodi ardaloedd gwarchod byd natur a thrwy adfer mawndiroedd.

Cydnabuwyd yn 2005 pa mor bwysig yw rheoli tir y tu allan i ffiniau tir sydd wedi'i ddynodi'n ardal warchodaeth, yn sgil cyhoeddi strategaeth ar gyfer y mawndiroedd a chynllun rheoli newydd. Bydd cynllun Scottish Natural Heritage yn cael ei ymgorffori yn Rhaglen Datblygu Gwledig yr Alban. Mae'r rhaglen hon yn darparu un o'r cyfraddau cymhorthdal isaf, yn ôl arwynebedd, ar gyfer rheoli tir yn yr UE. O ganlyniad, mae'n rhaid targedu arian yn ofalus i sicrhau bod dulliau rheoli cywir yn parhau. Bydd hyn yn dod â manteision economaidd-gymdeithasol clir i'r ardal fregus hon, yn ogystal ag i'r maes gwarchod natur.

Niall Benvie (rspb-images.com)

David Osborn (rspb-images.com)

Y Gyfarwyddeb Adar ar waith

Gogledd Iwerddon: dacw alarch ar y llyn

Mae AGA Llyn Neagh a Llyn Beg yng nghanol Gogledd Iwerddon, ac mae'n ardal wlyptir o bwysigrwydd rhyngwladol i adar y dŵr. Mae'r safle yn cynnal bron i 100,000 o adar y dŵr yn y gaeaf, gan gynnwys niferoedd o bwysigrwydd rhyngwladol o alarch y gogledd, sy'n clwydo ac yn bwydo yn yr ardal.

Yn 2002, cyflwynodd Gwasanaeth Ffyrdd Gogledd Iwerddon gynnig i adeiladu ffordd ddeuol fel cyswllt pwysig rhwng dwy ddinas fawr Gogledd Iwerddon, Belfast a Londonderry; i wella diogelwch ar y ffyrdd; ac i leihau amseroedd teithio i ddefnyddwyr y ffyrdd. Fodd bynnag, roedd un o'r cynigion gwreiddiol yn golygu adeiladu'r ffordd trwy gyrion deheuol yr AGA mewn ardal a ddefnyddir gan lawer o elyrch y gogledd. Cododd hyn bryderon y byddai cynefin addas yn cael ei golli ac y byddai'r traffig yn rhwystro'r elyrch rhag defnyddio'r ardal.

Cododd yr RSPB y mater hwn gyda'r Gwasanaeth Ffyrdd a'i ymgynghorwyr, a dargyfeiriwyd y ffordd ymhellach o'r AGA, gan effeithio ar lai o elyrch. Er hynny, roedd angen cynnal asesiad o dan Erthygl 6 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd o hyd. Ar ôl derbyn cyngor gan yr RSPB, aeth ymgynghorwyr ati i gynnal arolygon cynhwysfawr o'r defnydd o'r ardal gan elyrch y gogledd. Daeth asesiad trylwyr i'r casgliad y byddai'r ffordd newydd arfaethedig yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar yr AGA ac elyrch y gogledd.

Fodd bynnag, er mwyn lleihau unrhyw effeithiau ar y safle, nodwyd nifer o fesurau i'w hymgorffori yng nghynllun y ffordd arfaethedig. Roedd y rhain yn cynnwys colli cyn lleied o gynefinoedd bwydo'r elyrch ag yr oedd modd drwy ddewis llwybr y ffordd yn ofalus, tirlunio gofalus, a gofynion i gyfyngu ar weithgareddau adeiladu yn ystod cyfnodau sensitif.

Mae gwaith pellach ar y gweill i fonitro elyrch y gogledd yn yr ardal yn flynyddol, rheoli cynefinoedd i wella'r ardal ar gyfer elyrch y gogledd yn y dyfodol, a sefydlu Gweithgor i oruchwylio'r gwaith o wella'r ardal i'r adar. Byddai'r Gweithgor yn cynnwys asiantaethau statudol a grwpiau cynghori perthnasol, ffermwyr lleol a'r RSPB.

Er y gall datblygiad cynllun ffordd drwy safle gwlyptir fel AGA Llyn Neagh a Llyn Beg ymddangos yn fygythiad mawr, bydd defnyddio proses y Gyfarwyddeb Cynefinoedd o wneud penderfyniadau i asesu'r bygythiad i'r AGA yn sicrhau dyfodol cadarnhaol i elyrch y gogledd os yw'r cynnig yn mynd rhagddo.

David Walton (rspb-images.com)

Y Gyfarwyddeb Adar ar waith

Cymru: meysydd mud

Cymru: Erthygl 3 ac adar cyffredin ar drai

Mae'r Gyfarwyddeb Adar yn berthnasol i'r gwaith o warchod pob rhywogaeth o adar gwyllt mewn Aelod-Wladwriaeth. Hyd yn hyn, mae'r gwaith wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddynodi, gwarchod a rheoli AGA ar gyfer rhywogaethau prin, rhywogaethau mewn perygl a rhai mudol. Ond beth am sefyllfa ein poblogaethau o adar sy'n dibynnu ar gefn gwlad iach y tu allan i ardaloedd a warchodir? Does bosibl mai iechyd adar cyffredin yw'r prawf mwyaf o ymrwymiad y llywodraeth i amcanion y Gyfarwyddeb Adar?

Mae Erthygl 3 o'r Gyfarwyddeb Adar yn pennu'r camau y dylai llywodraethau eu cymryd i gynnal ac adfer amrywiaeth o gynefinoedd digonol i sicrhau bod ein poblogaethau o adar gwyllt yn iach ac yn ffynnu. Ond ychydig iawn o lywodraethau sydd wedi cymryd pob cam sydd ei angen, gan olygu bod niferoedd llawer o rywogaethau a fu'n gyffredin yn y gorffennol bellach yn gostwng yn ddifrifol.

Yng Nghymru, mae cadwraethwyr wedi bod yn lleisio eu pryderon am y gostyngiad yn niferoedd llawer o adar mewn cynefinoedd a ffermir ers dros 10 mlynedd. Mae dirywiad a gofnodwyd yn y 1970au am y tro cyntaf wedi parhau yn ddi-baid. Cafwyd gostyngiad o dros 80% yn nifer y gylfinir rhwng 1993 a 2006, gyda dim ond 1,099 pâr ar ôl. Gostyngodd nifer y gornchwiglen o 7,448 pâr ym 1987 i 1,698 ym 1998. Os yw'r dirywiad hwn wedi parhau, fel y mae data arall yn ei awgrymu, dim ond 600-700 pâr sydd ar ôl yng Nghymru. Yr ofn yw, os yw'r tueddiadau hyn yn parhau, mae yna berygl y bydd y rhywogaethau hyn yn diflannu o gefn gwlad Cymru a ffermir o fewn degawd, gyda nythu yn gyfyngedig i warchodfeydd natur. Mae niferoedd y bras melyn wedi gostwng 44% a niferoedd y ddrudwen wedi gostwng 51% ers 1994. Nid yw bras yr ŷd na'r durtur yn nythu'n rheolaidd bellach ac ymddengys eu bod wedi diflannu'n gyfan gwbl i bob diben fel adar sy'n nythu yng Nghymru.

Mae prinder rhywogaethau a oedd yn gyffredin ar un adeg, fel y gornchwiglen a golfan y mynydd, yn golygu bod y rhaglen genedlaethol i fonitro adar sy'n nythu yn methu cynhyrchu gwybodaeth ystyrlon am eu statws yng Nghymru. Oherwydd hyn, a phrinder data hanesyddol yng Nghymru, mae'n anodd i Lywodraeth Cynulliad Cymru adrodd ar iechyd poblogaethau o adar sy'n nythu. Gan dderbyn y cyfyngiadau hyn, aeth ati i fabwysiadu dangosydd dwy-ran sy'n nodi newid hirdymor yn nosbarthiad daearyddol adar, ochr yn ochr â dangosydd adar cyffredin sy'n nythu o 1994. Hyd yn oed heb dystiolaeth arolygon o rywogaethau penodol, mae'r dangosydd hwn yn dangos yn glir bod adar mewn cynefinoedd a ffermir mewn trafferthion.

Ni fu prinder ymrwymiadau polisi i fynd i'r afael â'r gostyngiad mewn poblogaethau adar gwyllt: ymrwymiad Llywodraeth y DU yn 2004; ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 2001; yna yn 2006, targed canlyniadau Strategaeth Amgylcheddol Cymru ar gyfer atal y gostyngiad mewn bioamrywiaeth erbyn 2010; a gwelliant i'w weld erbyn 2026. Ac yn 2008, aeth Cynulliad Cymru ati i gynyddu'r rhestr o rywogaethau o adar o Bwysigrwydd Bioamrywiaeth Uchel yng Nghymru o 23 i 51.

Fodd bynnag, mae'n amlwg bod yr ymrwymiadau hyn wedi methu â llywio polisi ac adnoddau'r llywodraeth i sicrhau'r newidiadau angenrheidiol. Mae angen camau gweithredu llawer mwy sylweddol i atal y dirywiad, yn enwedig wrth ariannu a chynllunio'r cynllun amaeth-amgylchedd Glastir newydd, rheoli safleoedd gwarchodedig mewn ffordd integredig a phroses y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth.

Erbyn hyn, ceir consensws na fydd yr UE yn llwyddo i gyrraedd ei darged 2010 o ran atal y dirywiad mewn bioamrywiaeth. Yng Nghymru, fel yng ngweddill y DU, mae angen edrych eto ar Erthygl 3 o'r Gyfarwyddeb Adar a'i bwriad clir i warchod bywyd adar yn ehangach.

Mae niferoedd y gylfinir sy'n nythu wedi gostwng dros 80% ers 1993.

Andrew Parkinson (rspb-images.com)

Atal anhrefn hinsawdd – fframwaith ar gyfer gweithredu

Mae bywyd gwyllt ledled y byd yn un o ddioddefwyr cyntaf a diymadferth newid yn yr hinsawdd. Mae'r duedd hon yn mynd i barhau. Mae modelau rhagfynegi o effeithiau hinsawdd gynhesach yn peri pryder mawr. Erbyn canol yr unfed ganrif ar hugain, bydd cymaint â miliwn o rywogaethau bron yn prysur ddiflannu. Mae ymchwilwyr yr RSPB a Phrifysgolion Durham a Chaergrawnt wedi modelu effeithiau newid yn yr hinsawdd ar adar yn Ewrop yn y dyfodol. Maent wedi canfod y bydd amodau hinsawdd addas yn symud, ar gyfartaledd, 550 km i'r gogledd-ddwyrain erbyn diwedd y ganrif, mewn sefyllfa o gynhesu cymedrol. Bydd hyn yn herio gallu rhywogaethau i addasu mewn amgylchedd naturiol wedi'i ddryllio a'i ddifrodi. Bydd hyn yn fanteisiol i rai rhywogaethau – ond credir y bydd mwy yn dioddef.

Os yw newid yn yr hinsawdd yn parhau y tu hwnt i reolaeth, mae'n siŵr o arwain at ansicrwydd mawr a pheryglon difrifol na fydd rhai rhywogaethau yn goroesi. Y gobaith mwyaf o safbwynt cynnal amrywiaeth rhywogaethau yw gweddnewid ein hagwedd tuag at gynhyrchu a defnyddio ynni, a sicrhau ein bod yn cadw newid yn yr hinsawdd dan reolaeth.

David Tipling (rspb-images.com)

Mae'r newid yn yr hinsawdd yn fygythiad i'r cwtiad aur wrth iddo effeithio ar y cyflenwad o bryfed sydd ar gael.

Rydym eisoes wedi gweld cynigion ar gyfer ynni adnewyddadwy sydd o fewn, neu'n effeithio'n uniongyrchol ar safleoedd Natura 2000 a'r rhwydwaith safleoedd gwarchodedig ehangach; bydd mwy yn y dyfodol. Nid yw'r broses o ddynodi safle ynddi ei hun yn ddigon i rwystro datblygiad o anghenraid, ond mae asesiadau gofalus o effeithiau amgylcheddol datblygiadau ynni yn hanfodol. Mae gan y Cyfarwyddebau Adar a Chynefinoedd gyfraniad hollbwysig i'w wneud tuag at lywio ein hymateb i newid yn yr hinsawdd, er mwyn ein galluogi i reoli'r argyfwng hinsawdd rydym wedi'i greu heb wneud y sefyllfa yn waeth.

Mae'r system gynllunio yn ganolog i'r defnydd amserol a chynaliadwy o ynni adnewyddadwy. Bydd yr RSPB yn gweithio gyda llywodraethau ledled y DU i gyflwyno cynlluniau defnydd tir o'r ansawdd gorau ar gyfer ynni adnewyddadwy. Gallai'r rhain gyfuno targedau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol priodol â chynllunio gofodol a manteision i gymunedau. Bydd cynlluniau da ar gyfer y môr yn dibynnu ar nodi'r ardaloedd gorau ar gyfer bywyd gwyllt ac integreiddio ei anghenion mewn cynlluniau a phrosesau rheoli effeithiol. Un maes lle mae camau gweithredu wedi bod yn arbennig o araf yw ar y môr. Mae angen i lywodraethau fynd ati ar frys i ddynodi AGA morol ar gyfer adar y môr, môr-hwyaid a throchyddion. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen buddsoddi mewn casglu data fel bod modd nodi'r ardaloedd sy'n bwysig i adar ar y môr.

Mae safleoedd a warchodir o dan y Cyfarwyddebau Natur yn hanfodol i'n hymdrechion i amddiffyn byd natur yn erbyn effeithiau negyddol newid yn yr hinsawdd. Mae'r gwaith o warchod y pethau gorau sydd gennym ar hyn o bryd yn ganolog i unrhyw ddull gweithredu i helpu bywyd gwyllt i addasu i hinsawdd newidiol. Mae cwblhau'r fframwaith drwy fynd ati ar frys i ddynodi safleoedd sy'n gymwys a buddsoddi yn y gwaith o'u rheoli i sicrhau eu bod mor effeithiol â phosibl o safbwynt y bywyd gwyllt sy'n dibynnu arnynt, yn fuddsoddiad doeth yn nyfodol y blaned.



> "Mae safleoedd Natura 2000 yn gadarnleoedd hollbwysig mewn môr o newid yn yr hinsawdd. Maent yn hafanau diogel y gallwn ni eu cryfhau a'u haddasu ar gyfer anghenion newidiol bywyd gwyllt Ewrop. Ond mae angen mwy nag ardaloedd gwarchodedig ar fyd natur. Bydd rheoli bioamrywiaeth mewn ffordd gydlynol ar draws tirweddau yn fwyfwy pwysig er mwyn sicrhau'r newid yn nosbarthiad rhywogaethau sydd eisoes wedi cychwyn yn sgil y newid yn yr hinsawdd."
>
> Dr Olly Watts, Uwch Swyddog Polisi'r RSPB ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd

RSPB (rspb-images.com)

“Fe hoffwn gywiro un o’r camsyniadau am Natura 2000 – sef, unwaith y mae safle yn cael ei ddynodi, mae’n rhaid i bob gweithgarwch economaidd ddod i ben. Nid yw hyn yn wir o gwbl ac mae’n drueni os bydd y syniad hwnnw’n parhau. Mae rhwydwaith Natura yn cynnwys tirweddau byw lle mae ffermio, pysgota a hela yn gallu parhau. Mae modd cyflawni prosiectau datblygu mawr hyd yn oed ar ôl rhoi camau diogelu penodol ar waith. Mae profiad y rhan fwyaf o Aelod-Wladwriaethau yn dangos ei bod hi’n berffaith bosibl manteisio ar hyblygrwydd y Cyfarwyddebau Natur mewn ffordd ddeallus a chael cydbwysedd da rhwng gwarchod bioamrywiaeth ac anghenion economaidd.”

Stavros Dimas, Comisiynydd Amgylchedd yr UE

Mae niferoedd rhedwr y moelydd sy’n nythu wedi cynyddu drwy gydweithrediad agos rhwng staff cadwraeth, ffermwyr a thirfeddianwyr. Mae cyllid LIFE-Nature wedi helpu yn hyn o beth.

Chris Gomersall (rspb-images.com)

A yw’r Gyfarwyddeb Adar wedi llwyddo?

Mae Cyfarwyddeb Adar yr UE wedi bodoli ers 30 mlynedd, a’i nod yw mynd i’r afael â dirywiad hirdymor adar Ewropeaidd o bob math yn dilyn degawdau o ddinistrio a diraddio cynefinoedd, ac erlyn a chamfanteisio ar rywogaethau. Er ei bod hi’n berthnasol i adar gwyllt o bob math, mae’n canolbwyntio ar adar y mae gan yr Undeb Ewropeaidd gyfrifoldeb clir drostynt: rhywogaethau prin ac agored i niwed a restrir yn Atodiad I o’r Gyfarwyddeb, a rhywogaethau mudol sy’n dibynnu ar yr UE am rannau allweddol o’u cylch bywyd. Y prif ddull a ddefnyddiwyd yw sefydlu rhwydwaith o AGA ledled yr UE.

Mae gwaith diweddar yn ymwneud â thueddiadau poblogaethau adar gwyllt o bob math ers 1970 wedi dangos pwysigrwydd y Gyfarwyddeb Adar i’r adar hyn, yn enwedig y rhai yn Atodiad I. Mae’r gyfradd adferiad ar gyfer rhywogaethau Atodiad I wedi bod yn sylweddol uwch o fewn yr UE na’r tu allan iddo. O fewn yr UE, mae’r gyfradd wedi bod yn uwch o safbwynt rhywogaethau Atodiad I na rhywogaethau nad ydynt wedi’u rhestru yn yr Atodiad. Mae cyfraniad ardaloedd gwarchodedig at yr adferiad hwn yn gwbl allweddol. Po fwyaf yw ardal yr AGA, po gryfaf yr adferiad, yn enwedig o safbwynt y rhywogaethau prin ac agored i niwed yn Atodiad I. Amlygwyd hyn gan y dystiolaeth bod y tueddiadau hyn yn fwy cadarnhaol mewn gwledydd sydd wedi dynodi ardaloedd AGA mwy.

Mae hyn yn cadarnhau swyddogaeth ganolog y Gyfarwyddeb Adar o ran sicrhau adferiad rhywogaethau mwyaf prin ac agored i niwed Ewrop ar raddfa gyfandirol, a chyfraniad hollbwysig ardaloedd gwarchodedig at yr adferiad hwnnw.

Cryfder mawr y Gyfarwyddeb Adar yw ei gallu i warchod natur ac ar yr un pryd bod yn gwbl gydnaws â gweithgareddau economaidd cyn belled â’u bod wedi’u dylunio a’u cynllunio i barchu’r cyfyngiadau amgylcheddol sydd wrth wraidd y Gyfarwyddeb Adar.

Chris Knights (rspb-images.com)

Her 2010

Andy Hay (rspb-images.com)

Mae niferoedd rhegen yr ŷd yn cynyddu yng ngogledd-orllewin yr Alban, ac mae prosiect ail-gyflwyno yn Swydd Gaergrawnt yn adfer rhan o'i hen ardal nythu yno.

Y Gyfarwyddeb Adar a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yw conglfeini ymgais yr UE i sicrhau amgylchedd naturiol iach. Yn ogystal â darparu tirweddau sy'n gallu ysbrydoli, mae cynefinoedd yn darparu gwasanaethau cynnal bywyd hanfodol, fel bwyd, dŵr ac iechyd meddyliol a chorfforol pobl.

Er gwaethaf 30 mlynedd o lwyddiant gwirioneddol yn deillio o'r Gyfarwyddeb Adar, mae'n debyg y bydd yr UE yn methu cyrraedd ei darged ei hun, sef atal dirywiad bioamrywiaeth erbyn 2010. Yn eironig, mae llawer o bolisïau'r UE yn gwaethygu'r sefyllfa, ac mae cyllid ar gyfer bioamrywiaeth yn hynod o annigonol. Mae angen cynllun uchelgeisiol sy'n seiliedig ar y Cyfarwyddebau Natur i weddnewid y sefyllfa o blaid gwarchod natur ac i gyflwyno cynllun i achub byd natur.

Mae'r her yn glir – mae angen camau gweithredu er mwyn:

- mabwysiadu targed ar gyfer 2020 sy'n mynd y tu hwnt i atal y broses o golli bioamrywiaeth ond yn hytrach hyrwyddo'r gwaith o adfer cynefinoedd a rhywogaethau yn yr UE. Dylai swyddogaeth allweddol bioamrywiaeth o ran ymladd yn erbyn newid yn yr hinsawdd fod wrth ei wraidd

- cryfhau a chefnogi polisïau bioamrywiaeth llwyddiannus fel y Cyfarwyddebau Adar a Chynefinoedd, gan ganolbwyntio ar roi rhwydwaith arloesol Natura 2000 o ardaloedd gwarchodedig o fewn tirwedd a reolir mewn ffordd gynaliadwy

- sicrhau bod polisïau niferus yr UE sy'n effeithio ar, ac yn niweidio bioamrywiaeth yn cael eu diwygio er mwyn diogelu gwasanaethau amgylcheddol y mae cymdeithas yn dibynnu arnynt

- sicrhau bod €3-4 biliwn y flwyddyn o gyllideb yr UE yn cael ei neilltuo i warchod a rheoli rhwydwaith Natura 2000 fel asgwrn cefn ecosystemau'r UE. Dylai rheolwyr tir gael eu gwobrwyo'n deg am eu cyfraniad at ofalu am y rhwydwaith

- sicrhau bod camau brys yn cael eu rhoi ar waith i gwblhau'r rhwydwaith o safleoedd Natura 2000 ar y tir a'r môr, yn y DU a ledled yr Undeb Ewropeaidd.

David Levenson (rspb-images.com)

Mae bywyd gwyllt yn hwb naturiol sy'n codi'n hysbryd, yn clirio'n meddyliau ac yn ein helpu i wneud tipyn o ymarfer corff. Felly, mae helpu ein llecynnau bywyd gwyllt gorau yn helpu pobl hefyd.

Cyfeiriadau

Donald PF, Sanderson FJ, Burfield IJ, Bierman SM, Gregory RD a Waliczky Z (2007). International conservation policy delivers benefits for birds in Europe. Science 317: 810 - 813.

Williams G, Pullan D, Dickie I, Huggett D a Mitchell H (2005). The European Birds Directive - safeguarding special places for people and wildlife. Yr RSPB, Sandy.

Anon (2007). Climate Change - wildlife and adaptation. 20 Tough Questions, 20 Rough Answers. Yr RSPB, Sandy.

Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy (2007). Turning the Tide - Tidal Power in the UK supporting construction of a sustainable Severn barrage.

Huntley B, Green R, Collingham Y a Willis SG (2007). A Climatic Atlas of European Breeding Birds, Prifysgol Durham. Yr RSPB a Lynx Edicions, Barcelona.

Heath, MF ac Evans, MI (golygyddion) (2000). Important Bird Areas in Europe: sites for conservation. Two volumes, Caergrawnt, y DU. BirdLife International (BirdLife Conservation Series rhif 8).

Cysylltiadau

Yr RSPB

Pencadlys y DU

The Lodge, Sandy, Bedfordshire SG19 2DL.
Ffôn: 01767 680551

Pencadlys Gogledd Iwerddon

Belvoir Park Forest, Belfast BT8 7QT.
Ffôn: 028 9049 1547

Pencadlys yr Alban

Dunedin House, 25 Ravelston Terrace, Caeredin, EH4 3TP.
Ffôn: 0131 311 6500

Pencadlys Cymru

Tŷ Sutherland, Pont y Castell, Heol Ddwyreiniol y Bont-faen, Caerdydd CF11 9AB.
Ffôn: 029 2035 3000

www.rspb.org.uk/savingspecialplaces

Llun y clawr: Chris Gomersall (rspb-images.com)

Mae'r RSPB yn eiriol dros adar a bywyd gwyllt ac yn mynd i'r afael â'r problemau sy'n bygwth ein hamgylchedd. Mae byd natur yn anhygoel – gallwch chi ein helpu i'w warchod.

Mae'r RSPB yn rhan o BirdLife International, y bartneriaeth fyd-eang o sefydliadau gwarchod adar.

Mae'r Gymdeithas Frenhinol dros Warchod Adar (yr RSPB) yn elusen gofrestredig: Cymru a Lloegr rhif 207076, Yr Alban rhif SC037654. 225-0949-09-10